Helen Cooper

1. A gaethoch chi eich enwebu ar gyfer y rôl? Os felly, allwch chi ddweud a oedd hyn yn ysgogiad i chi sefyll?

Do, fe gefais e-bost oddi wrth yr enwebiadau yn dweud y byddwn i'n addas iawn i fod yn Swyddog Llesiant yr Undeb. Does dim dwywaith roedd yn anogaeth i fi sefyll! Ni fyddwn i fod wedi bod yn ymwybodol o'r cyfle fel arall. Sefais i oherwydd mai hon oedd y ffordd fwyaf effeithiol o herio prosesau ac anghyfiawnder oedd yn cael argraff wael ar ein profiad myfyriwr. Eisiau helpu o'n i.

2. Beth ydych chi'n ei wneud nawr? Pa fath o yrfa wnaethoch chi ddilyn/sydd gennych chi erbyn hyn?

Fi yw Cydlynydd Llais y Myfyrwyr erbyn hyn: Ymgyrchoedd a Democratiaeth ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. ydw i'n dal mewn Addysg Uwch? Hoffwn i aros mewn elusennau.

3. Beth yw eich hoff atgof o fod yn Swyddog?

Llynedd, cawsom lond diwrnod o weithgareddau ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac aeth Tiff a fi ati i gydweithio'n ddiflin gyda phobl allanol a mewnol a phleser mawr oedd ei weld yn dwyn ffrwyth! Daeth yr holl swyddogion eraill ynghyd a helpu ac fe oeddwn yn ymfalchïo'n fawr ynddom ni i gyd a'r argraff gawsom fel tîm.

4. Sut gyngor fyddech chi'n rhoi i unrhyw sy'n sefyll dros y ro l?

Ni fydd pob newid a wnewch yn amlwg, nid yw'r ffaith na allwch chi ei weld yn golygu ei fod yn ddiffrwyth - mi rydych chi'n haeddu bod yn yr ystafell honno